# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Remote - Digital**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Medi 2022

Amser: 09.03 - 09.25

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai'n talu teyrnged fer i'r cyn-Aelod Mick Bates, a fu farw'n ddiweddar, ar ddechrau'r cyfarfod heddiw.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai busnes a ohiriwyd o 13 a 14 Medi oherwydd y cyfnod o Alaru Cenedlaethol ar gyfer Ei Mawrhydi y Frenhines yn cael ei aildrefnu ar gyfer 20 a 21 Medi, gan gynnwys y Cwestiynau Llafar a chynigion sydd eisoes wedi'u cyflwyno ar gyfer dadl. Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr ychwanegiadau a ganlyn i fusnes dydd Mawrth:

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Diweddariad ar gostau byw (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Covid a Phwysau'r Gaeaf (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Diweddariad ar Brydau Ysgol am Ddim (30 munud)

- Ni fydd cyfnod pleidleisio.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.15pm.

**Dydd Mercher**

Esboniodd y Llywydd, gan nad oes ffenestr lawn ar gyfer cyflwyno gwelliannau i gynigion y ddadl ddydd Mercher wedi bod yn bosibl cyn hyn, y bydd y Swyddfa Gyflwyno yn derbyn gwelliannau a gyflwynwyd heddiw. Yn unol â hynny, bydd Cynnig i

atal y Rheolau Sefydlog dros dro yn cael ei ychwanegu i agenda dydd Mercher i ganiatáu i unrhyw welliannau a gyflwynwyd gael eu trafod.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

Hysbysodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes o sawl newid i weithdrefnau pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn o ddechrau tymor yr hydref, yn dilyn trafodaethau blaenorol yn y Pwyllgor Busnes a diwygiadau a wnaed i Reolau Sefydlog ar ddiwedd tymor yr haf. Nododd hefyd y bwriad i roi'r gorau i'r arfer o gael egwyl cyn y cyfnod pleidleisio, unwaith y mae Aelodau wedi cael cyfle i ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd.

Bydd canllawiau wedi'u diweddaru ar drafodion hybrid a rhithwir yn cael eu trafod ymhellach gan y Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion yn fuan, cyn cael eu darparu i Aelodau.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 27 Medi 2022 -**

- Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar - Ehangu Dechrau’n Deg (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Cefnogi’r Gweithlu'r Addysg (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Qatar 2022 (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar Wcráin (30 munud)
- Datganiad gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip: Treftadaeth y Byd yn y Gogledd-orllewin (30 munud)

**Dydd Mawrth 4 Hydref 2022 –**

- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cymraeg 2050 Adroddiad Blynyddol 2020-21 (30 munud)

**Dydd Mawrth 11 Hydref 2022 –**

- Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Datblygu Economaidd Rhanbarthol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymdrin â Feirysau Anadlol (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Gwerthusiad o'r Strategaeth "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl" a'r Camau Nesaf (30 munud)
- Rheoliadau'r Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022 (15 munud)
- Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022 (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod yr eitemau a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (60 munud):
  - Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)
  - Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Mae'r dyddiadau ar gyfer sesiynau Cwestiynau Llafar yn y dyfodol hefyd wedi'u haddasu yn dilyn y cyfnod o Alaru Cenedlaethol a byddant yn cael eu hailgyhoeddi.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen, a'u hail-drefnu, yn dilyn y cyfnod o Alaru Cenedlaethol.

**Dydd Mercher 28 Medi 2022 –**

- ~~Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 5 Hydref*
- ~~Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 5 Hydref*
- <u>Cynnig i gymeradwyo'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd a nodi'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer 2021-22 (60 munud)</u> *Gohiriwyd o 21 Medi*
- <u>Dadl fer: Joel James (Canol De Cymru) (30 munud)</u> *Gohiriwyd o 21 Medi*
- Dadl fer: Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn) (30 munud)

**Dydd Mercher 5 Hydref 2022 –**

- <u>Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (30 munud)</u> *Gohiriwyd o 28 Medi*
- <u>Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)</u> *Gohiriwyd o 28 Medi*
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ail gartrefi (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer: Sam Rowlands (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 12 Hydref 2022 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (60 munud) *Gohiriwyd o 21 Medi*
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

Hysbysodd y Llywydd y Pwyllgor Busnes mai'r dyddiad cau newydd i Aelodau ar gyfer cyflwyno cynigion i'w dethol ar gyfer y Ddadl Aelodau a drefnwyd ar gyfer 5 Hydref fydd 5pm ddydd Iau 22 Medi. Oherwydd Gŵyl y Banc, bydd y balot ar gyfer sesiynau Cwestiynau Llafar yr wythnos nesaf yn cael eu cynnal ddydd Mawrth 20 Medi.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) - amserlen ddiwygiedig

Cyflwynodd y Trefnydd amserlen ddiwygiedig ar gyfer craffu ar y Bil, oherwydd y bu oedi o ran ei chyflwyno tan ar ôl y cyfnod o Alaru Cenedlaethol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar yr amserlen ddiwygiedig arfaethedig, ac i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf.

### 4.2 Bil Amaethyddiaeth (Cymru) - amserlen

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, ac i ohirio penderfyniad ar yr amserlen ar gyfer y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.3 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Darparodd y Trefnydd ddiweddariad ar Femoranda a biliau Llywodraeth y DU. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wneud yr hyn a ganlyn:

- cyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) ar gyfer craffu at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 1 Rhagfyr;
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Caffael tan 24 Tachwedd;
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) tan 1 Rhagfyr;
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion tan 1 Rhagfyr;
- cadw’r dyddiad cau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil Banc Seilwaith y DU, sef 17 Tachwedd;
- nodi’r diweddariad a ddarparwyd gan y Llywodraeth ar Filiau eraill y DU a Memoranda eraill.

## 5 Amserlen y Senedd

### 5.1 Dyddiadau toriadau

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor y Gwanwyn a Phasg 2023, a chytunwyd ar ddyddiadau toriad dros dro ar gyfer hanner tymor y Sulgwyn a Haf 2023.

## 6 Unrhyw faterion eraill

### Biliau eraill y cynhelir gwaith craffu arnynt ar hyn o bryd

Rhoddodd y Trefnydd ddiweddariad llafar ar y ddau fil y mae'r Senedd yn craffu arnynt ar hyn o bryd: y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Cynigiodd y Trefnydd na ddylai'r amserlenni ar gyfer y Biliau hyn newid, ond nododd y byddai'r Llywodraeth yn agored i'r syniad o drafod estyniad byr i'r terfyn amser ar gyfer cyfnod Ystyriaeth Gychwynnol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) pe bai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ystyried bod hynny'n ddefnyddiol.

Nododd y Pwyllgor Busnes y diweddariad, a chytunodd i ymgynghori â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o ran y dulliau arfaethedig o bennu dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y ddau fil.